

❖ **DISGLEIRIED DY OLEUNI**

‘Y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch,  
ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef.’

Yng ngenedigaeth ein Gwarddwr, llewyrcha oleuni Duw yn ein byd. Arglwydd Iesu Grist, bendithiwn di am ddod i’n plith mewn gostyngeiddrwydd a chariad. Dengys i ni galon gariadus y Tad: dengys i ni y ffordd y dylem fyw.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Cyffeswn ein bod yn rhy aml yn dewis anwybyddu’r goleuni a roddwyd i ni, oherwydd bod yn well gennym y tywyllwch. Rho i ni, O Dduw, y gras o wir edifeirwch, fel y gallwn brofi dy faddeuant ac fel y cawn fyw yn fwy fel plant y goleuni.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch. Diolchwn i ti, O Dad, am y modd yr wyt ti’n treiddio pob tristwch, gan gynnig gobaith i’r gwangalon, gorfoledd mewn galar a bywyd lle mae angau.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef. Dros fywydau pob un sydd wedi goleuo Dy ffordd mewn mannau tywyll, pob un sydd wedi parhau yn ffyddlon drwy ddiodefiant mawr ac erledigaeth, ac am y sicrwydd y bydd Dy wironedd yn para byth, bendithiwn Di.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Cofiwn y rhai hynny sy’n gyfrifol am artaith, y rhai sy’n ei orchymyn, yn ei gefnogi neu sy’n ei anwybyddu. Llewyrcha i’w calonnau, O Arglwydd, fel y gwelant di yn wynebau eu dioddefwyr, ac y cânt y dewrder i droi o’u drygioni.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Gweddïwn ar ran newyddiadurwyr a darlledwyr sy’n dylanwadu ar lawer gyda’u geiriau a’u lluniau: fel y byddant yn ymroddedig i’r gwaith o ddarganfod y gwir, gan drin y cryf a’r gwan yn anrhydeddus, a chan wrthod y pwysau i ddweud yn unig yr hyn sy’n dderbyniol i’r rhai mwyaf grymus.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Gweddïwn ar ran Cristnogion yn Erbyn Poenydio, Amnest Rhyngwladol, y Sefydliad Meddygol Dros Ofal Dioddefwyr Artaith, a phob mudiad arall sy'n gweithio er mwyn gwaredu'r byd o artaith ac sy'n rhoi cymorth i rai sydd wedi dioddef.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

Gweddïwn ar ran dynion a menywod sy'n cael eu harteithio ar hyn o bryd, yn feddyliol neu yn gorfforol, yn ysu am ryddhad, yn ofnus rhag iddynt fradychu ffrindiau. Esmwytha eu poen, O Arglwydd. Rho nerth iddynt i ddal ati, a hyd yn oed yng nghanol eu dioddffaint, caniatâ iddynt gael cipolwg o oleuni dy gariad.

*Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd*

**Disgleiried dy oleuni.**

**Cristnogion yn erbyn Poenydio**